



YSGOL DYFFRYN CONWY

Pennaeth / Head : Miss Elan Davies

e-bost/e-mail : cyff@dyffrynconwy.conwy.sch.wk

www.ysgoldyffrynconwy.org



27/4/20

Annwyl Rieni/Gofalwyr Blwyddyn 12,


Diolch yn fawr iawn i chi am eich cefnogaeth dros y cyfnod hwn. Gobeithio eich bod chi a'ch plant yn cadw yn iach ac yn ddiogel yn y cyfnod parhaus cymhleth hwn.

Yn ystod y diwrnodau diwethaf mae gwybodaeth bellach wedi ei rannu gyda ni o ran cynllun dysgu o bell cenedlaethol a rhanbarthol a rhagwelwn y bydd mwy o wybodaeth i ddilyn, yn enwedig o ran disgwyliadau ar gyfer blwyddyn 12 wrth iddynt bontio i flwyddyn 13 ar ddiwedd y tymor.

Mae gwybodaeth bwysig am gefnogi dysgu o bell yn ddigidol bellach ar gael ar safwe Hwb. Gallwch glicio ar yr arweiniad o'r tab isod ar dudalen flaen **Hwb**.




Wrth ddilyn y ddolen, cewch wybodaeth am ddysgu o bell gan gynnwys cymorth i rieni a gofalwyr: *DS - maent dal i ddatblygu ac yn anghyflawn ar hyn o bryd*



Ceir hefyd gwybodaeth ychwanegol gan gynnwys **cefnogaeth lles meddyliol** ar gyfer ein pobl ifanc, a'r offer digidol am ddim sydd ar gael i bob disgybl yng Nghymru:





Mae y ddolen gyswllt 'Teimlo'n bryderus?' yn cynnwys cyfeiriadau at asiantaethau cefnogi megis 'Meic' a 'Childline Cymru'. Mae'r elfen lles yn elfen allweddol o'r cynllun **'Cadw'n ddiogel – dal ati i ddysgu cenedlaethol'**.

Cynllun Dysgu o Bell Ysgol Dyffryn Conwy:

Atodwn gopi o'r cynllun dysgu ar bell ar gyfer Blwyddyn 12. Ategir y cynllun gan waith sydd eisoes ar Google Classroom ar gyfer eich mab/merch. Cysylltwch os oes problem gyda mynediad neu llenwch yr holiadur rhieni isod (os nad ydych chi eisoes wedi gwneud) er mwyn i ni allu eich cefnogi:

https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5kyemwyTqFu1GpZn51GLEeP9UNFBaT0U4UUIOSVBNWTVCV0w2Tkc4R0ExMS4u

Wrth weithredu ar yr arweiniad dysgu o bell diweddaraf sydd yn ein cyrraedd, mae rhai egwyddorion craidd yn amlygu hoffwn eu rhannu gyda chi. Bydd y rhain yn rhan o'n disgwyliadau ar gyfer cynllun dysgu o bell wythnosol hyblyg ar gyfer ein disgyblion.

- Mae lles disgyblion, drwy awgrymu gweithgareddau corfforol, lles, teuluol/cymdeithasol yn cymryd blaenoriaeth o fewn unrhyw 'amserlen' neu awgrymiadau dysgu, mae awgrymiadau wedi eu cynnwys yn y cynllun dysgu. Mae y cwricwlwm cenedlaethol a gofynion statudol wedi eu disodli ar gyfer y cyfnod cyfredol yn sgil Covid19 a cau ysgolion.
- Chi sydd yn gwybod sefyllfa unigol eich plentyn a'ch teulu, awgrym yn unig ydy'r amserlen sydd wedi ei gynnig – gallwch ei addasu er mwyn sefyllfa eich plentyn a'ch teulu.
- Ym mlwyddyn 12 dylai ddisgyblion weithio drwy eu pynciau dewis yn eu tro – mae dal disgwyl iddynt fod mewn cyswllt gyda eu athrawon pwnc, gellir wneud hynny drwy y dosbarthiadau Google Classroom a drwy ebyst. Gallent hefyd gysylltu gyda Mrs Barlow eu Pennaeth Cynnydd yn yr un modd. Mi fydd y cyfnod nesaf yn cynnwys dechrau cynllunio ar gyfer blwyddyn 13 a'u llwybrau wedi hynny. Mae yn bwysig felly eu bod yn gwirio eu ebyst ysgol am wybodaeth bellach.
- Nid yw'r arweiniad rydym wedi ei dderbyn gan yr Awdurdod Lleol a Consortiwm Gogledd Cymru (GWE) yn cefnogi dysgu byw (live stream) fel rhan o'n hymateb i'r sefyllfa gyfredol ar sail diogelwch ar y we a dibynadwyedd ac ymarferoldeb gweithredu yn y modd hwn. Ni fydd dysgu uniongyrchol drwy systemau dysgu byw megis TEAMS felly yn cael ei cynnal.
- Gofynnwn i ddisgyblion weithio trwy y tasgau pwnc a'u cyflwyno drwy Google Classrooms, eu ebyst ysgol neu drwy'r post i'r ysgol yn wythnosol. Bydd athrawon yn cynnig adborth ar y gwaith fel rhan o gadw mewn cyswllt a cynnal ymrwymiad i ddysgu ein disgyblion. Y nod ydy y bydd hynny yn ein cynorthwyo ni gyd i allu ailgydiad mewn dysgu mwy ffurfiol wrth i ysgolion ail-agor i'r dyfodol.

Gobeithio y bydd y cynlluniau dysgu yn eich cefnogi chi wrth i chi gefnogi ein disgyblion drwy sefyllfa newydd ac anghyfarwydd.

Dymunaf yn dda i chi gyd. Byddwch ddiogel.

Yn gywir, Miss Elan Davies, Pennaeth.



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Cefnogwyd gan
Y Loteri Genedlaethol
trwy Gyngor Celfyddydau Cymru

Supported by
The National Lottery
through the Arts Council of Wales

